

Coedwigoedd Glaw Berwr (*Cress*)

Arbrawf gwyddonol i ddangos effaith datgoedwigo ar y pridd

Byddwch angen:

Compost hadau pridd llwyd John Innes

4 bwrdd neu sgwâr solid cadarn o blastig (bydd angen iddynt gael eu cario allan yn nes ymlaen)

Chwistrellwr dŵr

2 becyn o hadau berwr

Siswrn

Caniau dŵr â thyllau dyfrio mân

Beth i'w wneud

Bydd disgyblion yn gwneud pedwar mynydd allan o gompost a'u plannu nhw gyda hadau berwr. Ar ôl tuag wythnos, pan fydd y berwr wedi tyfu, byddant yn rhoi dŵr iddynt gyda chaniau dŵr, i weld effaith dŵr ar briddoedd a blannwyd mewn ffyrdd gwahanol.

Prawf teg

Yr hadau berwr fydd y newidyn

Rhywfaint o awgrymiadau:

Tynnwch gylch ar bob bwrdd fel bod yr holl fryniau'r un maint

Gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw lymphiau yn y compost





Pwyswch y compost

Lle mae'r berwr yn cael ei hau, heuwch ef yn drwchus

Rhowch ddŵr i'r mynyddoedd bob dydd gyda'r un faint o ddŵr yn y chwistrellwr

Gwnewch yn siŵr bod y mynyddoedd yn cael yr un faint o olau wrth dyfu

Heuwch yr hedyn fel a ganlyn:

			
Mynydd 1 drosto'i gyd	Mynydd 2 dim o gwbl	Mynydd 3 dros un hanner yn unig	Mynydd 4 drosto'i gyd

Unwaith y bydd yr hedyn wedi tyfu, torrwyd y berwr ar fynydd 4 i gynrychioli datgoedwigo.

Rhowch ddŵr i bob mynydd yn ei dro, yn defnyddio'r un faint o ddŵr, a daliwch y can dŵr ar yr un uchder ar gyfer pob mynydd. Mae hyn yn cynrychioli'r glaw.

Gofynnwch i'r disgyblion arsylwi, cofnodi a thrafod beth sy'n digwydd. Gallent dynnu lluniau neu ffilmiau o'r broses.

Beth allwch chi ei ddisgwyl?

Mynydd 1 Y mynydd coedwig law - mae ganddo'i holl goed o hyd

Mae'r canopi o ddail yn atal y glaw rhag taro'r pridd, felly bydd braidd dim erydiad. Bydd y gwreiddiau hefyd yn dal y pridd, ond efallai na fydd disgyblion yn sylwi ar hyn eto.

Mynydd 2 Y mynydd wedi'i ddatgoedwigo - mae'r coed a'r gwreiddiau wedi'u clirio i gyd

Bydd y mynydd yn golchi i ffwrdd gan nad oes dim i ddal y pridd.

Mynydd 3 Y mynydd wedi'i ddatgoedwigo'n rhannol

Bydd tirlithriad ar yr ochr o'r mynydd sydd heb ei blannu, gan adael gwreiddiau'r hanner wedi'i blannu yn hollol yn y golwg. Mae hyn yn dangos sut mae'r gwreiddiau hefyd yn dal y pridd yn ei le.

Mynydd 4 Y mynydd wedi'i gynaeafu

Mae'r coed wedi cael eu torri i lawr ac mae'r gwreiddiau yn dal i fod yno i ddal y pridd, ond mae'r canopi wedi mynd, felly bydd rhywfaint o erydiad. Fodd bynnag, wrth i'r gwreiddiau farw, byddant yn llai abl i ddal gfael ar y pridd.

Ôl-ffeithiau Datgoedwigo

Mae canopi'r coed yn helpu i gadw'r goedwig yn gynnes yn y nos ac yn ei hatal rhag mynd yn rhy boeth yn ystod y dydd. Gall colli'r canopi fod yn niweidiol i anifeiliaid a phlanhigion wrth i'r tymereddau newid.

Mae rhai pobl wedi byw yn, neu'n agos i goedwigoedd glaw am genedlaethau, ac yn dibynnu arnynt am fwyd a meddyginiaethau. Pan fydd y goedwig yn cael ei thorri i lawr, gallant golli popeth, gan gynnwys eu cartrefi.

Weithiau, gall pobl golli eu cartrefi mewn tirlithriad, fel y bydd disgyblion wedi ei weld gyda Mynydd 3 neu 4. Yn hanesyddol, mae hyn wedi bod yn broblem benodol ym Mbale, Uganda, lle mae Maint Cymru yn cefnogi prosiect.

Mae coed yn amsugno carbon deuocsid - y prif nwy tŷ gwydr sy'n achosi cynhesu byd-eang. Mae llai o goedwigoedd yn golygu bod meintiau mwy o nwyon tŷ gwydr ar ôl yn yr atmosffer, a bod newid yn yr hinsawdd yn newid yn gyflymach ac yn fwy difrifol.

Gall y pridd gael ei sychu gan yr haul a'i droi'n anialwch os bydd coed yn cael eu torri i lawr.